O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1270 (Cy. 300)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 (Cyffordd 1, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 36A, Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Rhagfyr 2016* |
| *Yn dod i rym* | *2 Ionawr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain - Caergybi a Chefnffordd Caer - Bangor (yr A55) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Ionawr 2017. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55 (Cyffordd 1, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 36A, Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 2 Ionawr 2017 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw pob cilfan ar cefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 1, Caergybi a Chyffordd 36A, Brychdyn, Sir y Fflint.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Rhagfyr 2016

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru